**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 24 Medi 2013

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** Cyng. Julian Thompson-Hill / Paul McGrady

**Awdur yr Adroddiad:** Arwel Staples, Rheolwr Caffael Strategol

**Teitl: Diweddariad Trawsnewid Caffael**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw diweddaru'r Cabinet ar wahanol gynlluniau caffael sy'n cael eu cyflawni fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Caffael.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i fwrw ymlaen â'r tri phrosiect Caffael a amlinellir yn yr adroddiad hwn.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Rhoi cymeradwyaeth i CSDd fod yn aelod swyddogol o Gonsortiwm Prynu Cymru am y 3 blynedd nesaf tan 31 Mawrth 2016, gyda ffi gyfrannu flynyddol o £13,500

3.2 Datblygu Achos Busnes ar gyfer creu gwasanaeth ar y cyd drwy gyfuno Unedau Caffael Strategol Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint.

3.3 Datblygu achos busnes ar gyfer y Gwasanaeth Caffael Tair Sir a fyddai i ddechrau'n cynnwys Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Gwynedd yn seiliedig ar Strwythur Rheoli Categori

## 4. Cefndir

Mae nifer o bethau'n digwydd gyda chaffael yng Nghymru. Mae caffael yn cael ei weld fel yr ateb i nifer o faterion - arbed arian drwy ddefnyddio contractau mwy, cefnogi'r economi leol drwy ddefnyddio contractau llai, cynyddu rheolaeth leol er mwyn dod a budd i gymunedau drwy ddefnyddio cymalau lles cymdeithasol, cynyddu rheolaeth ganolog drwy greu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Mae'r galwadau hyn sy'n cystadlu wedi'u gosod yn erbyn pwysau fel canolbwyntio ar leihau swyddogaethau 'swyddfa gefn' sefydliadau a grŵp cymharol fychan o staff yn genedlaethol. Mae'r cynigion canlynol yn ategu ei gilydd ac mae Atodiad 6 yn ceisio dangos sut maent yn cyfateb i'w gilydd.

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio arwain aelodau drwy'r newidiadau sydd i ddod a sut y dylai'r Cyngor ymateb iddynt. Dyma'r cynlluniau allweddol cyfredol:

- Creu Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol newydd, sydd i fod mewn grym erbyn Tachwedd 2013 i ymateb i'r 20% o wariant cyffredin ac ailadroddus ar draws sector cyhoeddus Cymru
- Diwedd Partneriaeth Caffael Gogledd Cymru ym mis Mehefin 2013 a'r potensial o'i ddisodli drwy ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru
- Sicrhau yr ymgorfforir Datganiad Polisi Caffael Cymru a lansiwyd gan Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ, er mwyn hyrwyddo Caffael sy'n gyfeillgar i Fentrau Bach a Chanolig yn ogystal â gwireddu Budd Cymunedol
- Cyflwyno a gwneud rhagor o ddefnydd o atebion e-gaffael
- Ymgorffori gweithredoedd caffael yn deillio o Strategaeth Uchelgais Economaidd a Chymunedol CSDd

Rhagwelir y bydd Strategaeth Gaffael newydd y Cyngor wedi'i chwblhau erbyn mis Hydref 2013, gan fod y Strategaeth bresennol wedi dyddio.

Er mwyn ymgorffori ac adlewyrchu cynlluniau Caffael newydd, adolygwyd Rheolau'r Weithdrefn Gontractau (RhWG) hefyd, a chaiff set ddrafft o RhWG eu dosbarthu ar gyfer ymgynghori'n fuan mewn Meysydd Gwasanaeth. Disgwylir y bydd y RhWG newydd yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyngor Sir cyn y Nadolig.

Amlygodd adroddiad archwilio mewnol diweddar ar Gaffael Gwasanaethau Adeiladu nifer o welliannau sydd angen ynglŷn â'r ffordd y cyflawnir caffael gwaith adeiladu. Bydd datblygiad y prosiectau o fewn yr adroddiad hwn yn datrys nifer o'r materion a amlygwyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol.

## 5. Consortiwm Prynu Cymru (CPC)

Wedi i Bartneriaeth Caffael Gogledd Cymru (PCGC) gau'n ddiweddar, derbyniwyd llythyr gan Fwrdd Rheoli CPC mewn cydweithrediad â CLlLC yn gwahodd Cynghorau Gogledd Cymru i ystyried ymuno â CPC er mwyn creu Consortiwm Caffael Llywodraeth Leol Cymru yn cynnwys pob un o'r 22 o Gynghorau Cymreig. (Gweler Atodiad 1)

Cyn i'r PCGC ddod i ben yn ffurfiol ym mis Mehefin 2013, gwireddodd arbedion effeithlonrwydd ariannol o £2.4m ar draws 6 Chyngor Gogledd Cymru dros 5 mlynedd ei fodolaeth, sy'n brawf pendant o'r manteision sy'n deillio o gaffael ar y cyd.

Drwy ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru, byddai CSDd i bob pwrpas yn defnyddio datrysiad caffael tebyg, ond ar sail genedlaethol yn hytrach na rhanbarthol, ond byddai'r goblygiadau o ran cost ar gyfer ymuno fel Cyngor unigol yn cynnwys tanysgrifiad aelodaeth flynyddol o £13,500 o'i gymharu â £44,000 gyda PCGC. Byddem hefyd yn ymrwymo i arwain ar nifer penodol o gontractau.

Mae hyn yn golygu, er enghraifft y byddem yn cytuno i gyflawni nifer penodol o gontractau ar ran yr aelodau ac yn gyfnewid byddem yn cael mynediad i'r holl gontractau eraill perthnasol a osodir gan aelodau eraill. Amlygir y bendithion ariannol ac anariannol yn deillio o fod yn aelodau o CPC yn Atodiad 2.

Mae’r Pennaeth Cyllid ac Asedau a’r Rheolwr Caffael Strategol wedi cyfarfod â swyddogion ac aelodau bwrdd CPC ac wedi siarad ar wahân ag uwch swyddogion mewn cynghorau eraill i fesur effeithiolrwydd y bartneriaeth.

Mae’r opsiwn o ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru yn cael ei ystyried ar hyn o bryd ar draws Cynghorau Gogledd Cymru.

Mae CLlLC hefyd yn ystyried dod â CPC o fewn ei fframwaith llywodraethu i’w alluogi i fod yn Wasanaeth Caffael Llywodraeth Leol i Gymru gyfan.

## 6. Uno Unedau Caffael Strategol Sir Ddinbych a Sir y Fflint a’r Gwasanaeth Caffael Tair Sir

Yn dilyn cais gan Brif Weithredwyr chwe awdurdod Gogledd Cymru, comisiynodd Bwrdd Rheoli PCGC CAPITA i gynhyrchu Achos Busnes ar ‘Caffael Rhanbarthol Gogledd Cymru’, cyflawnwyd yr achos busnes ym mis Tachwedd 2012. Ar ôl i’r Prif Weithredwyr ystyried yr achos busnes penderfynwyd peidio symud ymlaen ymhellach ar sail chwe Awdurdod Lleol.

Fodd bynnag er mwyn symud Trawsnewid Caffael yn ei flaen ar sail isranbarthol, mae dau brosiect unigol wedi deillio o adroddiad gwreiddiol Capita. Manylir ar y ddau brosiect unigol isod ac mae’r ddau’n amodol ar gais ar y cyd am arian gan Gronfa Cydweithio Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (Gweler Atodiad 5). Mae’r arwyddion cynnar yn galonogol y bydd y cais am arian yn llwyddo, er y bydd hynny ar sail lai.

### 6.1 Uno Unedau Caffael Corfforaethol Sir Ddinbych a Sir y Fflint

Dros y deunaw mis diwethaf, mae Rheolwr Caffael Strategol CSDd hefyd wedi bod yn cyflawni rôl reoli rhan amser yn goruchwylio a datblygu'r Uned Gaffael Gorfforaethol yng Nghyngor Sir y Fflint. Mae hyn wedi amlygu'r manteision y gellir eu sicrhau drwy greu Uned gaffael Strategol unedig ar y cyd. Amlygir y bendithion yn Atodiad 4. Bydd Achos Busnes Terfynol manwl yn cael ei gyflwyno i’r Cabinet ym mis Hydref 2013.

### 6.2 Gwasanaeth Caffael Tair Sir

Mae Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd wedi penderfynu sefydlu prosiect newydd i ddatblygu achosion busnes amlinellol a manwl ar sail ‘Gwasanaeth Caffael Tair Sir’, wedi’i sefydlu o amgylch Rheolaeth Categori ar y cyd ar gyfer Cynghorau Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Gwynedd. Eglurir beth yw Rheoli Categori yn Atodiad 3. Bydd deilliant cychwynnol y prosiect hwn yn cynnwys datblygu achosion busnes amlinellol a therfynol erbyn mis Rhagfyr 2013 a mis Ebrill 2014 yn y drefn honno.

Mae’n bosibl y bydd goblygiadau i gyflwyno’r prosiect hwn ar Swyddogion sydd ar hyn o bryd yn cyflawni cyfrifoldebau caffael ym mhob maes gwasanaeth gan y gallai ymagwedd newydd tuag at reoli categori olygu bod angen ail ddylunio'r modd y caiff caffael gweithredol ei gyflawni ar draws y tri Chyngor. Bydd ymarferiad casglu data yn dechrau’n fuan i nodi pa staff presennol yn y meysydd gwasanaeth sydd â rolau a chyfrifoldebau caffael ac i ba raddau y gellir trawsosod hyn i asesiad Swyddi Cyfwerth â Llawn Amser (FTE).

**7. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd cymeradwyo argymhellion yr adroddiad hwn yn rhoi cyfle llawn i'r Cyngor nodi a gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd sydd eu hangen drwy gaffael er mwyn ymateb i'r pwysau ariannol eithafol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

**8. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**
Ni ellir pennu goblygiadau ariannol y ddau brosiect a amlygir yn adrannau 6.1 a 6.2 yr adroddiad hwn yn llawn ar hyn o bryd, nes y derbynnir penderfyniad ariannu LlC. Fodd bynnag mae Achosion Busnes manwl wrthi'n cael eu datblygu ar gyfer y ddau brosiect a byddant yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo'n ffurfiol gan y Cabinet ym mis Hydref 2013 a mis Ebrill 2014 yn y drefn honno.

Cost flynyddol ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru fyddai £13,500

**10. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**
Dim

**11. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**
Ymgynghorwyd â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, CET yn ogystal â staff Caffael yn Unedau Caffael Strategol CSDd a Chyngor Sir y Fflint.

**12. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gwario dros £120 miliwn y flwyddyn ar gaffael nwyddau a gwasanaethau. Mae'n hanfodol fod y Cyngor yn caffael y rhain mor effeithlon â phosibl.

Mae un peth yn gyffredin rhwng yr holl brosiectau uchod – maent yn ceisio gwella capasiti, gallu a gwydnwch caffael yn y rhanbarth. Mae caffael yn sgil arbenigol a phrin – mae swyddi gwag ar lefel rheolwr yn Sir y Fflint a Gwynedd, mae gan Ynys Môn reolwr dros dro. Mae swyddi gwag ar sawl lefel mewn Cynghorau eraill. Yn wir, Sir Ddinbych sydd ag un o'r timau caffael mwyaf yn y rhanbarth gyda 4 aelod staff parhaol. Ers creu NPS gwelwyd staff hefyd yn symud allan o lywodraeth leol a gallem golli aelod o staff. O fewn gwasanaethau, mae nifer o bobl yn gwneud penderfyniadau prynu ac nid yw hyn yn cael ei reoli'n ddigon da. Drwy gynnal y cynlluniau hyn, dylem allu defnyddio sefydliadau eraill i gyflawni gwaith ar ein rhan, cael mynediad lleol i arbenigedd prin a gwella gallu nifer llai o staff mewn adrannau i wneud gwell penderfyniadau.

**13. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Amlinellir yr holl risgiau'n ymwneud â Gwasanaeth ar y Cyd CSDd a Sir y Fflint a'r Gwasanaeth Caffael Tair Sir yn yr Achosion Busnes manwl unigol.
Mae'r risgiau yn gysylltiedig ag ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru yn fach iawn, ac yn cynnwys:

- Peidio â gwireddu arbedion effeithlonrwydd i dalu am gost y ffi aelodaeth.
- Cyd-atebolrwydd yn erbyn unrhyw hawliadau neu atebolrwydd cyffredinol yn deillio o unrhyw dendrau, gontractau neu gyflogaeth.

**14. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

O safbwynt ymuno â Chonsortiwm Prynu Cymru, mae Adran 7.1 Rheolau'r Weithdrefn Gontractau yn nodi: *"Bydd unrhyw aelodaeth o gonsortiwm caffael swyddogol yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet cyn y gwneir unrhyw ymrwymiad gan neu ar ran y Cyngor".*